

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach

Mawrth 2018

Y cefndir

Bil Masnach Llywodraeth y DU

1. Cafodd Bil Masnach Llywodraeth y DU¹ (y Bil) ei ddarllenriad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Tachwedd 2017. Daeth Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 1 Chwefror 2018. Nid yw dyddiad Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin wedi'i gyhoeddi eto.
2. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn dweud bod y Bil yn darparu mesurau allweddol sy'n ofynnol i lunio polisi masnach yn y dyfodol ar gyfer y DU ar ôl ymadael â'r UE.²
3. Mae'r mesurau'n cynnwys:
 - Pwerau gwneud rheoliadau i sicrhau y gall y DU weithredu unrhyw rywmedigaethau caffael sy'n deillio o'r DU yn dod yn aelod o Gytundeb Caffael y Llywodraeth ynddo'i hun.
 - Gweithredu cytundebau gyda gwledydd partner sy'n cyfateb i Gytundebau Masnach Rydd yr UE a chytundebau masnach eraill sydd ar waith cyn i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r Bil yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau i weithredu unrhyw newidiadau i gyfraith ddomestig a fydd yn angenrheidiol i'r DU fodloni rhwymedigaethau sy'n deillio o'r cytundebau hyn.

¹ Llywodraeth y DU, [Bil Masnach 2017-2019 Bil.122](#)

² Llywodraeth y DU, [Nodiadau Esboniadol y Bil Masnach](#), Tachwedd 2017, paragraff 1



- Sefydlu'r Awdurdod Rhwymediâu Masnach i gyflwyno fframwaith rhwymediâu masnach newydd y DU.
- Galluogi'r Awdurdod Rhwymediâu Masnach i ddarparu cyngor, cefnogaeth a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â chynnal anghydfodau rhyngwladol a swyddogaethau eraill yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud â masnach a swyddogaethau'r Awdurdod Rhwymediâu Masnach. Gall yr Awdurdod hefyd ddarparu cyngor, cefnogaeth a chymorth o'r fath i sefydliadau eraill ar ei fenter ei hun.
- Pŵer i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi gasglu data ar ran Llywodraeth y DU i gadarnhau nifer yr allforwyr nwyddau a gwasanaethau yn y DU a gallu nodi'r allforwyr hynny at ddibenion hyrwyddo masnach.
- Pŵer i sefydlu porth rhannu data rhwng Cyllid a Thollau EM a chyrrff cyhoeddus a phreifat eraill, fel y gall y cyrrff hynny, gan gynnwys yr Adran Masnach Ryngwladol, gyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus a chael mynediad at ddata ar gyfer gwaith ymchwil, monitro a gwerthuso.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Ar 7 Rhagfyr 2017, gosododd Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ysgrifennydd y Cabinet), gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil.³

5. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm i'w ystyried gan y Pwyllgor hwn, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 12 Rhagfyr 2017. Gosododd y Pwyllgor Busnes ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 27 Chwefror 2018, a ymestynnwyd wedi hynny i 16 Mawrth, yn dilyn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor hwn.⁴

Ystyriaeth

6. Cawsom dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet mewn cyfarfod cydamserol gyda'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 12 Chwefror 2018.⁵

³ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Masnach*, Rhagfyr 2017

⁴ Y Pwyllgor Busnes, *Amserlen ddiwygiedig ar gyfer trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach*, Mawrth 2018

⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2018.

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar eu cyfer

7. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod angen cydsyniad ar gymalau 1, 2, 3 a 4 a'r Atodlenni 1, 2 a 3 cysylltiedig ar y sail eu bod yn darparu ar gyfer diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.⁶

8. Mae Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y DU i'r Bil hefyd yn dweud bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1, 2, 3 a 4 a'r Atodlenni 1, 2 a 3 cysylltiedig.⁷

9. Barn Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan fod y Bil yn ymdrin â materion datganoledig a'r rhai sydd heb eu datganoli.⁸ Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ychwanegu y gall cytundebau masnach yn y dyfodol gael effaith fawr ar feysydd datganoledig, felly mae'n bwysig bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y Bil Masnach.⁹

10. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi y bydd y cwestiwn ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio yn dibynnu ar ymateb Llywodraeth y DU i welliannau a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru.¹⁰

11. Ar 18 Ionawr 2018, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad yn nodi gwelliannau arfaethedig Llywodraeth Cymru (a ddatblygwyd ochr yn ochr â Llywodraeth yr Alban ac y byddent yn cymhwyso'n gyfartal mewn perthynas â phwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion yr Alban).¹¹ Yn gryno, byddai'r gwelliannau'n dod â phwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru yn agosach at bwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion y DU. Byddai'r gwelliannau hefyd yn ei

⁶ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Masnach*, Rhagfyr 2017, paragraff 6

⁷ Llywodraeth y DU, *Nodiadau Esboniadol y Bil Masnach*, Tachwedd 2017, paragraffau 15-17 ac Atodiad A

⁸ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Masnach*, Rhagfyr 2017, paragraff 18

⁹ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Masnach*, Rhagfyr 2017, paragraff 18

¹⁰ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Masnach*, Rhagfyr 2017, paragraff 16

¹¹ Llywodraeth Cymru, *Gwelliannau i Fil Masnach y DU a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban*, 18 Ionawr 2018

gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i Weinidogion y DU ddefnyddio eu pwerau gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig.

Ein barn ni

Sylwadau cyffredinol

- 12.** Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif faterion yr ydym am eu codi mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Fodd bynnag, rydym yn ailadrodd yr arsylwadau a wnaethom yn ein hadroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ynghylch trefniadau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig.¹²
- 13.** Yn gryno, rydym yn ailadrodd pwysigrwydd parchu'r broses cydsyniad deddfwriaethol fel rhan ganolog o ddiogelu'r setliad datganoli. Rydym yn ailadrodd rôl sylfaenol confensiwn Sewel. Fodd bynnag, rydym hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cymhwyso'r broses cydsyniad deddfwriaethol i is-ddeddfwriaeth.
- 14.** O ran Biliau'r DU yn deillio o ymadael â'r UE, rydym eisoes wedi sylwi ar batrwm lle mae Gweinidogion y DU yn cael pwerau eang i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'r Bil Masnach. Felly, mae'n hollbwysig bod y trefniadau cydsyniad Offerynnau Statudol a nodir yn Rheol Sefydlog 30A y Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu parchu, ac yn parhau i gael eu parchu. Pryd bynnag y bydd Gweinidogion y DU yn gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig (ac y cyflwynir Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol), bydd angen cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol.
- 15.** Fodd bynnag, nodwn y dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth mewn tystiolaeth, pan fo Gweinidogion y DU yn defnyddio eu pwerau cydamserol o dan y Bil mewn meysydd datganoledig (i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ai peidio), y dylai'r cydsyniad hwnnw fod yn fater i Weinidogion Cymru:

“It's a judgment call at the end of the day, this is. I think there's a strong argument for both, but, ultimately, the decision was made against a backdrop of a clock that is completely out of our control. Speed and time are in short supply, and I didn't feel it would be particularly helpful to

¹² Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, Rhagfyr 2017

introduce another procedure. Therefore, I made the decision that I did, but I do accept that, equally, there is a strong argument in favour of the whole Assembly having a role in this.”¹³

16. Cadarnheir yr ymagwedd honno yn y gwelliannau arfaethedig i'r Bil a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.¹⁴

Y weithdrefn sy'n berthnasol i reoliadau a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol

17. Ailadroddwn y pryderon a fynegir gennym yn ein hadroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)¹⁵ fod y Bil yn nodi'r weithdrefn sy'n berthnasol i reoliadau: (1) a wneir gan Weinidogion Cymru, a (2) a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

18. Ein barn ni yw y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu pa weithdrefn ddylai fod yn berthnasol i reoliadau a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Er ein bod yn cydnabod bod gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd i basio ei ddeddfwriaeth sylfaenol ei hun sy'n nodi gweithdrefnau o'r fath, o ystyried y cyfyngiadau amser a'r dymunoldeb o gael yr holl ddarpariaethau mewn un lle, rydym yn derbyn ei bod yn briodol i'r gweithdrefnau gael eu nodi yn y Bil. Fodd bynnag, cyn belled ag y gwyddom, nid ymgynghorwyd â'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch pa weithdrefnau ddylai fod yn berthnasol i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan y Bil.

19. Mae'r Bil yn dweud bod y weithdrefn penderfyniad negyddol yn berthnasol i bron bob rheoliad a wneir o dan y Bil, hyd yn oed pan fo'r rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Mae'n farn gennym ers tro y dylai unrhyw reoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol o leiaf.

20. Rydym yn arbennig o bryderus bod y pwerau gwneud rheoliadau a geir yn y Bil yn caniatáu i reoliadau addasu deddfwriaeth sylfaenol sy'n gyfraith yr UE a ddargedwir (gweler cymal 2(6) o'r Bil). Mae rhannau o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn

¹³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cofnod y Trafodion [47], 12 Chwefror 2018.

¹⁴ Llywodraeth Cymru, *Gwelliannau i Fil Masnach y DU a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban*, 18 Ionawr 2018

¹⁵ Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, Rhagfyr 2017

gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir; felly byddai cymal 2(6) yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud sy'n addasu *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Byddai'r fath ddiwygiad fel y bydd y gweinidogion (Cymru neu'r DU) yn ystyried yn briodol at ddibenion gweithredu cytundeb masnach ryngwladol; byddai rheoliadau o'r fath yn dilyn y weithdrefn negyddol.

21. Er bod cwmpas y pwerau gwneud rheoliadau yn y Bil yn gyfyngedig i bwerau i weithredu Cytundeb Caffael y Llywodraeth a chytundebau masnach ryngwladol, mae natur cytundebau masnach ryngwladol yn benodol yn aneglur o hyd. Sut beth fydd y cytundebau masnach ryngwladol hyn? Hefyd, wrth eu gweithredu, faint o gwmpas fydd i addasu deddfwriaeth ddomestig drwy reoliadau?

22. O ystyried ansicrwydd o'r fath, nid ydym yn credu bod cymhwyso'r weithdrefn negyddol i bob rheoliad gweithredu yn briodol.

Pwerau gwneud rheoliadau 'fel y maent yn ei ystyried yn briodol'

23. Rydym yn adleisio pryderon llawer bod y pŵer i wneud rheoliadau (yn y Bil hwn a Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) fel y mae gweinidogion yn 'ei ystyried yn briodol' yn rhy eang.

24. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod ein sesiwn dystiolaeth:

"It should be 'as necessary'. 'Appropriate' is too vague, I think."¹⁶

25. Mae'r pryder ynghylch ehangder y pwerau gwneud rheoliadau hyd yn oed yn fwy gan nad yw'r Bil yn nodi rhestr o bethau na all rheoliadau eu gwneud o dan gymalau 1 a 2 (heblaw am un cyfyngiad cymharol fach yng nghymal 2(5)). Hefyd, er nad yw'r Bil yn mynd cyn belled â dweud y gall rheoliadau wneud unrhyw beth y gall Deddf Seneddol ei wneud, mae rheoliadau o dan gymal 2 yn bŵer Harri'r VIII a all addasu deddfwriaeth sylfaenol sy'n gyfraith yr UE a ddargedwir.

26. At hynny, mae'r modd y gellir ymestyn y terfyn amser ar gyfer gwneud rheoliadau o dan gymal 2 yn golygu y gellid defnyddio'r pwerau hyn am flynyddoedd lawer.

27. Yn olaf, fel y nodir uchod, ymddengys ei fod yn amhosibl diffinio cwmpas llawn pwerau cymal 2 heb wybod sut beth fydd y cytundebau masnach ryngwladol. Faint o hyblygrwydd fydd wrth weithredu cytundeb masnach ryngwladol? Efallai y bydd llawer iawn o hyblygrwydd, sy'n golygu y bydd gan y pwerau gwneud rheoliadau yng

¹⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cofnod y Trafodion [47], 12 Chwefror 2018.

ngghymal 2 gwmpas eang i addasu cyfraith ddomestig er mwyn gweithredu cytundeb masnach ryngwladol. Mewn achosion o'r fath, credwn fod y weithdrefn penderfyniad negyddol yn amhriodol.

Anghydraddoldeb rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU

28. Fel ym Mil yr UE (Ymadael), mae cyfyngiadau ar y defnydd o bwerau cymalau 1 a 2 gan Weinidogion Cymru (a Gweinidogion yr Alban ac adrannau Gogledd Iwerddon) nad ydynt yn berthnasol i Weinidogion y DU.

29. Er enghraifft, ni all Gweinidogion Cymru ddefnyddio pwerau cymalau 1 a 2 i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir neu mewn ffordd sy'n anghyson ag addasiadau a wnaed gan Weinidogion y DU o dan Fil yr UE (Ymadael).

30. Nodwn y gwelliannau arfaethedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n dileu'r anghydraddoldeb hwnnw mewn perthynas â phwerau gwneud rheoliadau o dan y Bil mewn meysydd datganoledig.

31. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael),¹⁷ mae diffyg cydraddoldeb amlwg rhwng pwerau Gweinidogion Cymru a phwerau Gweinidogion y DU mewn meysydd datganoledig. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bwysicach fyth pan fydd Gweinidogion y DU yn defnyddio eu pwerau o dan y Bil (neu unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol) mewn meysydd datganoledig, bod angen cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol (gweler ein casgliad ym mharagraff 40 o'r adroddiad hwn).

Yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach

32. Er ein bod yn derbyn nad yw cymal 5 (sy'n sefydlu'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach) yn gofyn am ganiatâd y Cynulliad Cenedlaethol, mae'n dal i godi materion pwysig i Gymru.

33. Rhaid i'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach ddarparu cyngor, cefnogaeth a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol o ran masnach ryngwladol. Gall yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach ddarparu cyngor, cefnogaeth a chymorth o ran masnach ryngwladol fel y mae'r Awdurdod yn ei ystyried yn briodol i unrhyw un arall.

34. Os oes angen cyngor, cefnogaeth a chymorth gan yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â masnach ryngwladol, nid oes

¹⁷ Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, Rhagfyr 2017

dyletswydd ar yr Awdurdod i'w ddarparu (ond mae dyletswydd i wneud hynny ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol).

35. Dyma enghraifft arall o sut nad yw'r Bil yn trin Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU yn yr un ffordd.

Rhyngweithio â Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

36. Nodwn nad yw'r Bil yn cynnwys yr holl bwerau gwneud rheoliadau y bydd eu hangen mewn perthynas â materion masnach sy'n codi o ganlyniad i ymadael â'r UE. Gellir defnyddio ehangder y pwerau gwneud rheoliadau ym Mil yr UE (Ymadael) hefyd mewn perthynas â Chytundeb Caffael y Llywodraeth a chytundebau rhyngwladol, lle mae'r materion sy'n ymwneud â'r Cytundeb a chytundebau rhyngwladol yn codi o ganlyniad i ymadael â'r UE.

37. Cadarnheir hyn yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil o ran cymal 2:

“...in most cases, the implementation of any obligations within these UK trade agreements can be dealt with through the EU (Withdrawal) Bill.”¹⁸

CASGLIADU

38. Cytunwn fod angen cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cymalau 1, 2, 3 a 4 a'r Atodlenni 1, 2 a 3 cysylltiedig. Mae hyn oherwydd bod y cymalau a'r Atodlenni hynny yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

39. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau fel y maent yn ei ystyried yn briodol. Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod yn briodol, gallant wneud rheoliadau o dan gymalau 1 a 2 mewn perthynas ag unrhyw bwnc sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Felly, mae angen cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol.

40. Nid ydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet y dylai defnydd Gweinidogion Cymru o bwerau cydredol i wneud rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig fod yn ddarostyngedig i gydsyniad Gweinidogion Cymru. Yn ein barn ni, dylid ceisio cydsyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

¹⁸ Llywodraeth y DU, *Nodiadau Esboniadol y Bil Masnach*, Tachwedd 2017, paragraff 41

- 41.** Rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet fod yr ymadrodd ‘fel y maent yn ei ystyried yn briodol’ mewn perthynas â Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan y Bil Masnach yn darparu pwerau sy’n rhy eang ac y byddai ‘yn ôl yr angen’ yn ddigonol. Fodd bynnag, nodwn nad oedd y gwelliannau i adlewyrchu hyn yn cael eu cynnwys yn y gwelliannau arfaethedig i’r Bil Masnach a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 18 Ionawr 2018.
- 42.** O dan yr amgylchiadau, credwn ei bod yn debygol y bydd angen gwelliannau i’r Bil Masnach cyn y bydd y Cynulliad Cenedlaethol mewn sefyllfa i roi ei gydsyniad.
- 43.** Rydym yn bwriadu adrodd ar wahân ar y gwaith o graffu ar reoliadau a wnaed o dan y Bil Masnach.